Dewch i fod yn wirfoddolwr SmartRivers gyda ni

YMDDIRIEDOLAETH
DYFRDWY CYMRU

Dewch i'n helpu i weithio tuag at afon Ddyfrdwy sy'n rhydd o lygredd ac yn llawn bywyd gwyllt.

Mae SmartRivers yn brosiect gwyddoniaeth dinasyddion cenedlaethol sy'n dadansoddi infertebratau dyfrol i fonitro iechyd ein hafonydd. Gall casglu'r data hwn ein helpu i fonitro effaith ein gwaith adfer ein hunain, a chanfod pwysau sy'n wynebu'r Ddyfrdwy o ganlyniad i lygredd, tynnu dŵr, colli cynefinoedd, a rhywogaethau ymledol. Dyma gyfle i gael effaith gadarnhaol ar eich afon leol; gan ein helpu i adnabod pa ymdrechion gwella syddeu hangen a ble i ganolbwyntio arnynt.

Beth fyddaf yn ei wneud fel gwirfoddolwr SmartRivers?

Ar ôl cwblhau digwyddiad hyfforddi yn gyntaf byddwch yn helpu i ddadansoddi, i lefel rhywogaeth, samplau o infertebratau dyfrol a gasglwydyn nalgylch yr afon Ddyfrdwy. Gwneir y gwaith adnabod dan do gan ddefnyddio microsgopau. Nid oes angen unrhyw waith maes i wneud y cyfle hwn yn hygyrch i bawb.

Mae hon yn rôl barhaus gyda sesiynau adnabod rheolaidd yn cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn, ond yn arbennig dros yr haf (yn dilyn samplu yn y gwanwyn) a'r gaeaf (yn dilyn samplu yn yr hydref). Mae pob sesiwn yn rhedeg o tua 10am tan 4pm, a hoffem i chi geisio ymrwymo i fynychu o leiaf 6 sesiwny flwyddyn.

Unwaith y byddwch wedi mynychu'r diwrnod hyfforddi gallwch gofrestru eich enw ar gyfer un o'n sesiynau adnabod. Mae gan ein sesiynau adnabod awyrgylch cyfeillgar a hwyliog, lle gallwch chi gymdeithasu â phobl o'r un anian a dysgu gan eich cyfoedion. Wrth gwrs, darperir te, coffi a bisgedi!

Mae Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru yn cynnal tri hwb SmartRivers yn ein dalgylch: afon Alun, afon Ceiriog a nant Aldford. Bydd angen i chi deithio i'n sesiynau adnabod, a gynhelir fel arfer mewn neuaddau pentref neu ganolfannau cymunedol, mewn o leiaf un o'r ardaloedd hyn.

Sut i gymryd rhan

Cofrestrwch fel gwirfoddolwr Ymddiriedolaeth Dyfrdwy ar ein platfform gwirfoddoli Team Kinetic. Unwaith y byddwch wedi cofrestru, byddwch yn gallu cofrestru ar gyfer digwyddiad hyfforddi sydd ar ddod. Gallwch gael mynediad i dudalen gofrestru Team Kinetic drwy'r ddolen hon https:/ / www.welshdeetrust.com/ volunteer/